

# **Datganiad am Bolisiâu a Gweithdrefnau ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.**

## **Cyflwyniad.**

Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn rhoi llawer o bwerau newydd i Landlordiaid Cymdeithasol er mwyn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu stadau ac o'u hamgylch. Mae rhan o'r ddeddf newydd hon yn ymrwymo Landlordiaid Cymdeithasol i gyhoeddi datganiad ynghylch y polisiâu a'r gweithdrefnau y mae ganddynt yn eu lle er mwyn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, a'r ffyrdd y byddent yn gweithio gyda sefydliadau eraill a phreswylwyr er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon.

Mae niwsans sŵn, gollwng sbwriel yn anghyfreithlon, graffiti, ceir a adawyd, trais yn y cartref a chymdogion niwsans yn cael effaith niweidiol iawn ar ansawdd bywydau pobl.

Ni all sefydliad unigol ddatrys yr holl broblemau hyn. Yr unig ffordd o ddod o hyd i atebion effeithiol yw trwy gael grwpiau ac unigolion megis tenantiaid a phreswylwyr, awdurdodau tai a lleol, dioeddefwyr a thystion, yr heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol, cymdeithasau tai ac eraill i weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Nod y ddogfen hon yw gosod fframwaith ein polisi a'n gweithdrefnau ar fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, cefnogi tystion a dioddefwyr a defnyddio pob ateb cyfreithiol sydd gennym i ddileu'r broblem hon yn Abertawe.

Bydd y grynodeb o'r gweithdrefnau'n ffynhonnell wybodaeth ar sut, pryd a lle y dylid cwyno, sut bydd asiantaethau'n ymateb i'r cwynion hynny a sut bydd yr holl broses yn cael ei monitro ar bob cam.

Bydd y ddogfen hon ar gael i'w gweld ym mhob un o'n Swyddfeydd Tai, a gellir darparu copiâu ar gais. Mae crynodeb lai o'r ddogfen hon hefyd ar gael am ddim. Byddant hefyd ar gael ar y we ar wefannau amrywiol y sefydliadau partner.



## **Cyd-destun Deddfwriaethol.**

Mae'r ddogfen hon wedi'i hysgrifennu yng nghyd-destun newidiadau deddfwriaethol - graddfa fawr sydd wedi newid y ffordd y mae landlordiaid cymdeithasol yn mynd i'r afael ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

### **Mae'r rhain yn cynnwys:-**

- Deddf Tai 1996 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
- Llywodraeth Cynulliad Cymru: Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: Côd Arweiniad ar Bolisïau a Gweithdrefnau Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai.
- Deddf Plant 1989
- Deddf Sŵn 1996
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000
- Deddf Digartrefedd 2002
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995
- Deddf Llywodraeth Leol 2000
- Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018
- Deddf Troseddu ac Anhrefn 1998
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (fel y'i diwygiwyd yn 2002)

## **Diffiniad Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

Mae Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel wedi cytuno ar ddiffiniad o ymddygiad gwrthgymdeithasol fel a ddiffinnir yn Adran 1 (1)(a) Deddf Troseddu ac Anhrefn 1998, sef lle mae person "wedi ymddwyn...mewn modd sydd wedi achosi neu a oedd yn debygol o achosi aflonyddwch, braw neu ofid i un person neu fwy nad ydynt o'r un aelwyd ag ef/hi ei hun"

Mae'r mathau hyn o ymddygiad yn cynnwys ymddygiad afreolus a meddw, gollwng sbwriel yn anghyfreithlon, graffiti, iaith fygythiol ac ymosodol, trais yn y cartref a nifer o fathau eraill o ymddygiad sy'n atal eraill rhag mwynhau bywyd bob dydd.

Rydym hefyd yn cydnabod y diffiniad a nodir yn Adran 218A(8) y Ddeddf Tai:-

- a) Ymddygiad a allai achosi niwsans neu darfu ar unrhyw berson ac sydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn berthnasol i neu'n effeithio ar swyddogaethau rheoli tai'r landlord perthnasol.
- b) Ymddygiad a allai achosi niwsans neu darfu ar unrhyw un o'r canlynol:

1. Person sy'n byw mewn llety sy'n eiddo i neu'n cael ei reoli gan y landlord perthnasol.
2. Person sy'n ymweld â'r llety neu fel arall yn ymgymryd â gweithgaredd cyfreithlon yn y llety neu yng nghymdogaeth y llety.
3. Person a gyflogir gan y landlord perthnasol, yn llawn neu'n rhannol, sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau rheoli tai.

Gallai 'landlord perthnasol' fod yn awdurdod lleol, yn landord cymdeithasol cofrestredig neu'n ymddiriedolaeth gweithredu tai.

Mae swyddogaeth rheoli tai landlord yn cynnwys unrhyw weithgaredd a gynhelir yn ystod gwaith cynnal a rheoli strategol beunyddiol eu stoc. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau megis:-

- Gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio.
- Casglu rhent.
- Swyddogaethau rheoli eiddo.

Mae effeithiau 'anuniongyrchol' ar y swyddogaethau rheoli tai yn cynnwys casglu sbwriel a gwasanaethau eraill o'r fath sy'n cyfrannu at wasanaeth y landlord.

Mae'n bwysig cofio gall ymddygiad gwrthgymdeithasol gael ei achosi gan denant landlord perthnasol sy'n effeithio ar denantiaid eraill, perchnogion tai, neu unrhyw bobl eraill sy'n defnyddio eiddo neu'r cyfleusterau yn yr ardal.

Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd gael ei achosi gan berchnogion preswyl neu denantiaid landlordiaid eraill, cymdeithasol neu breifat, gan effeithio ar denantiaid landlord perthnasol.

Nid yw ymddygiad gwrthgymdeithasol o reidrwydd yn ymddygiad troseddol, ac ni ddylai landlordiaid geisio cymryd rôl yr heddlu. Y prif ffactor wrth benderfynu a yw ymddygiad yn wrthgymdeithasol yw effaith yr ymddygiad hwnnw ar eraill.

## **Ein Hymagwedd at Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.**

Rydym yn credu bod gan bawb yr hawl i fyw eu bywydau yn ôl eu dewis hwy oni bai ei fod yn effeithio ar ansawdd bywyd y rheiny o'u cwmpas. Mae hyn yn gofyn am oddefgarwch a pharch at anghenion a ffyrdd o fyw pobl eraill.

Pan fydd anghydfod rhwng pobl, byddwn yn ymdrechu i weithio gyda hwy er mwyn datrys y broblem pan fo hynny'n bosibl. Yn aml, dyma'r ffordd orau a chyflymaf o ddatrys anghydfod - gan na fydd pobl bob amser yn ymwybodol eu bod yn peri problem. Byddwn yn gweithio gyda phobl ac asiantaethau eraill er mwyn datrys ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Byddwn yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ffordd gadarn ond teg, a gwneud cymaint â phosib i atal ymddygiad o'r fath yn y lle cyntaf.

Mae gennym amrediad o weithredoedd y gallwn eu defnyddio'n erbyn pobl sy'n achosi niwsans yn gyson. Gall tenantiaid golli sicrwydd eu deiliadaeth, eu cartref neu dderbyn gorchymyn gwahardd a allai achosi iddynt gael eu harestio neu hyd yn oed eu carcharu. Fodd bynnag, nid yw'r gweithredoedd hyn yn briodol ym mhob achos, a bydd mesurau eraill yn cael eu defnyddio yn eu lle.

Byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau bod ein cymdogaethau'n lleoedd heddychol, diogel a dymunol i fyw ynddynt. Rydym yn cydnabod bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gallu difetha cymunedau a bod gennym gyfrifoldeb i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

## **Ymrwymiadau Tenantiaid.**

Pan mae tenantiaid yn llofnodi eu cytundebau tenantiaeth, maent yn cytuno i'r amodau sydd yn y cytundeb hwnnw. Bydd y safonau ymddygiad a ddisgwylir ganddynt, ac unrhyw un arall sy'n byw neu'n ymweld â'r eiddo, yn cael ei egluro wrth lofnodi.

Mae'r amodau pennaf o ymddygiad derbyniol a amlinellir yn y cytundeb tenantiaeth yn cynnwys:

- Niwsans
- Niwsans gan deulu ac ymwelwyr.
- Aflonyddu, difrod i eiddo.
- Lladrata a defnyddio'r adeiladau yn anghyfreithlon.

Rydym yn disgwyl i bob tenant ddilyn y safonau hyn o leiaf.

## **Monitro a Pherfformiad.**

Byddwn yn cofnodi pob achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol y cawn wybod amdano a'n hymateb iddo. Byddwn hefyd yn sefydlu dangosyddion perfformiad o fewn y sefydliadau partneriaeth unigol i fesur pa mor effeithiol yr ydym o ran brwydro yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddwn yn ceisio cynnwys mesuriadau ystadegol ansoddol yn ogystal â meintiol o berfformiad er mwyn creu darlun cyflawn o pa mor dda yr ydym yn gweithredu yn y maes hwn.

## **Cefnogi Achwynyddion a Thystion.**

Os ydym am i'r gefnogaeth yr ydym yn ei darparu i achwynyddion a thystion fod yn effeithiol, mae'n bwysig bod systemau yn eu lle sy'n hybu hyder y rhai perthnasol ac yn cyfrannu at wella cyfraddau llwyddiant ar yr un pryd.

Mae angen dewrder i gwyno am ymddygiad gwrthgymdeithasol neu wirfoddoli fel tyst mewn achos o'r fath. Rydym yn cydnabod lefelau braw ac ofn y mae'n rhaid i achwynyddion a thystion eu hwynebu bob dydd, a dyna pam rydym yn cydnabod bod rhaid i ni weithio'n agos â hwy er mwyn datblygu perthynas o ffydd a hyder gilyddol.

Mae diogelwch achwynyddion a thystion yn bwysig iawn i ni. Rydym yn ymwybodol o fraw ac ofn dial sy'n gallu digwydd trwy gydol ac ar ôl achosion llys, a byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau na fydd unrhyw un yn ddi-amddiffyn unrhyw bryd wrth i ni weithredu.

Byddwn yn gweithio i sicrhau bod dioddefwyr ac achwynyddion yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ar bob cam o'r achos ac yn cael eu cefnogi drwy gydol proses y Llysoedd a thu hwnt ac ar ôl canlyniad yr achos.

## **Cwyno a Chadw mewn Cysylltiad**

Os ydych am wneud cwyn ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, cysylltwch â'ch landlord ar y rhifau isod. Fel arall, gallwch gwyno'n ysgrifenedig, trwy e-bost neu'n bersonol i unrhyw aelod o staff eich landlord. Bydd sefydliadau'r bartneriaeth yn sicrhau bod eich cwyn yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol, a'ch bod yn gwybod y diweddaraf ar bob cam o'r broses wrth i'r gŵyn gael ei hymchwilio a'i thrin.

## **Y Pecyn Cefnogi.**

Mae'r gefnogaeth y gallwn gynnig i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, achwynyddion a thystion yn hynod amrywiol. Gallwn ddarparu cyfeiriadau i asiantaethau eraill sy'n darparu gwasanaethau arbenigol o ran materion megis trais yn y cartref, diogelwch a chefnogaeth i ddioddefwyr. Byddwn yn ceisio darparu cefnogaeth ar bob cam o'r broses, a bydd pecyn penodol yn cael ei addasu wrth i'r achos barhau ac wrth i amgylchiadau newid.

## **Tystion Proffesiynol**

Gallwn hefyd ddefnyddio tystion proffesiynol mewn rhai amgylchiadau, sy'n caniatáu mwy o hyblygrwydd i gasglu a chyflwyno tystiolaeth yn ystod achosion cyfreithiol. Byddwn hefyd yn defnyddio'u gwasanaethau mewn achosion lle rydym yn ystyried bod y perygl i dystion yn ormod a/neu lle mae tystion yn amharod i ymddangos mewn llys.

## **Aflonyddwch Hiliol.**

Mae aflonyddwch hiliol yn cynnwys amrediad o ymddygiad gwahanol o ymosodiadau corfforol, ymosodiadau ar eiddo a cham-drin geiriol. Fodd bynnag, ystyrir unrhyw fath o ymddygiad a ysgogir gan hil sy'n amddifadu pobl rhag fwynhau eu cartrefi mewn heddwch yn aflonyddwch hiliol. Rydym yn hynod ymrwymedig i wahardd aflonyddwch hiliol o unrhyw fath yn llwyr. Rydym yn cydnabod diffiniad o ddigwyddiad hiliol a ddefnyddiwyd yn Adroddiad McPherson (1999) yn yr ymholiad i farwolaeth Stephen Lawrence. Mae hwn yn diffinio digwyddiad hiliol fel hyn:

"Unrhyw ddigwyddiad a ystyrir yn hiliol gan y dioddefwr, neu unrhyw berson arall."

Mae'r sefydliadau partner wedi datblygu Strategaeth Tai Pobl Ddu a'r Lleiafrifoedd Ethnig ynghyd â Chynllun Gweithredu perthnasol sy'n bwydo ein cynlluniau i drechu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Byddwn yn gweithio i:

- Annog adrodd am achosion.
- Cefnogi dioddefwyr.
- Ymdrin yn gadarn â throreddwyr.
- Sicrhau bod systemau monitro effeithiol yn eu lle.
- Ceisio atal aflonyddwch hiliol yn y dyfodol.

## **Trais yn y Cartref.**

Byddwn yn ceisio:

- Sicrhau bod y dioddefwr yn derbyn cefnogaeth.
- Darparu tai diogel os oes angen.
- Adleoli dioddefwyr os yw'n briodol.
- Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n dda o ran materion trais a cham-drin.



- Cynnig ymagwedd gyson ac ystyriol.
- Gweithio gyda asiantaethau arbenigol eraill a dioddefwyr i sicrhau canlyniad cadarnhaol.
- Gweithio gydag Uned Trais yn y Cartref yr Heddlu os oes angen ymgymryd â gweithredoedd gorfodi penodol.

## **Atal Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.**

Mae atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymagwedd llawer mwy dymunol i'r broblem nag ymagwedd o drin ymddygiad wedi iddynt ddatblygu'n unig. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn ymrwymedig i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy amrywiaeth o fentrau a ddatblygwyd o fewn y Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel.

## **Adfer Troseddwyr a Chefnogi Grwpiau Diamddiffyn**

Yn ogystal ag atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae gennym systemau yn eu lle i geisio atal yr ymddygiad rhag digwydd eto. Mae angen i hyn gael ei wneud ar sail achosion unigol am fod pob sefyllfa'n wahanol, ond mewn nifer o achosion, gellir nodi a thrin yr un achos sylfaenol. Dyma rai enghreifftiau o achosion posibl:-

- Camddefnyddio cyffuriau a/neu alcohol.
- Salwch meddwl
- Anawsterau dysgu
- Perthnasoedd yn methu.
- Anawsterau ariannol.

Mewn achosion fel hyn, gellir defnyddio asiantaethau arbenigol i ymyrryd a gweithio i fynd i'r afael ag ymddygiad niwsans.

Lle achoswyd ymddygiad gwrthgymdeithasol gan blentyn, byddwn yn gweithio gyda'i rieni a'i ysgol i geisio datrys y problemau hyn. Byddwn hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i asesu a yw'r plentyn yn 'blentyn mewn angen'.

## **Polisiau Gorfodi**

Gwnaeth Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 gynyddu'r grym gorfodi sydd ar gael i landlordiaid cymdeithasol i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gall gweithredoedd gorfodi atal a rhwystro ymddygiad gwrthgymdeithasol yn

effeithiol, a byddwn yn eu defnyddio fel un o amrediad o fesurau sydd ar gael i ni fel landlordiaid cymdeithasol. Mae'r grym gorfodi sydd ar gael i ni'n cynnwys:

- Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBOs)
- Gorfodebau llys
- Darostwng tenantiaeth.
- Pwerau yn ôl Deddf Diogelu'r Amgylchedd (1990)
- Gweithredoedd meddu a throi allan.

## **Partneriaethau Aml-Asiantaeth**

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem sy'n effeithio ar bob rhan o gymuned, ac nid oes modd i gyfraniad landlordiaid cymdeithasol yn unig ei datrys. Rydym yn cydnabod hyn, ac felly'n gweithio gyda phreswylwyr ac amrediad eang o sefydliadau allanol drwy Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel gyda phob asiantaeth yn chwarae rôl hanfodol i fynd i'r afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Ein nod yw gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod cymunedau diogel a goddefgar yn cael eu datblygu a'u cynnal.

Trwy rannu adnoddau a gwybodaeth, rydym yn cyflawni'r nod hwn. Rydym yn cefnogi pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, yn herio pobl nad ydynt yn gwneud hynny ac yn sicrhau ein bod yn adnabod ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn cymryd problemau o ddifrif ac yn gweithredu'n gyflym i'w hatal. Gyda chymorth tîm erlynyddion Gwasanaeth Erlyn y Goron, bydd gennym fynediad hwylus i gyfiawnder, a byddwn yn trin problemau yn hwylus. Hefyd, bydd gennym yr wybodaeth arbenigol angenrheidiol i sicrhau bod troseddwr yn cael eu trin mewn modd sy'n darparu'r ateb gorau i bawb dan sylw - partneriaid statudol, dioddefwyr a thystion, ysgolion, timau troseddu ieuencid, gwasanaethau cyffuriau, gwasanaethau iechyd a'r gwasanaeth prawf.

## **Cyfrinachedd**

Bydd unrhyw wybodaeth a drosglwyddir i ni ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol. Ni fydd unrhyw berson a enwir yn cael mynediad i'r wybodaeth o dan unrhyw amgylchiadau heb ganiatâd penodol y person a rodd yr wybodaeth.

Oherwydd natur y broblem, mae nifer o bobl yn dewis rhoi gwybodaeth i ni'n ddiennw. Er ein bod yn gwerthfawrogi ac yn deall pam mae pobl yn dewis gwneud hyn, mae'n ei gwneud yn llawer anoddach i ni ymateb i'r gŵyn mewn modd effeithiol. Mae hyn oherwydd ein bod yn methu adrodd yn ôl i'r person a gwynodd am gynnydd yr archwiliad, ac nid oes ffynhonnell gennym i gasglu manylion pellach neu gadarnhau ffeithiau.

## **Protocol Rhannu Gwybodaeth.**

Mae Deddf Troseddu ac Anhrefn 1998 yn rhoi grym i "awdurdodau perthnasol" megis yr heddlu, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a'r Gwasanaeth Prawf i rannu gwybodaeth o ran atal a lleihau troseddu ac anhrefn. Er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei chyfnewid yn gywir, yn effeithiol ac yn unol â deddfwriaethau perthnasol eraill megis y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, cytunwyd ar brotocol ysgrifenedig gan nifer o sefydliadau yn yr ardal megis Heddlu De Cymru, Dinas a Sir Abertawe a landlordiaid lleol cofrestredig.

Mae'r protocol yn pennu cyfres gaeth o weithdrefnau wedi'u dylunio i sicrhau bod unrhyw geisiadau am wybodaeth rhwng sefydliadau yn cael eu rheoli a'u monitro'n ofalus a dim ond y manylion perthnasol a phriodol sy'n cael eu cyfnewid, mewn modd sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth.

## **Hyfforddi Staff.**

Er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, rhaid i'n staff gael eu hyfforddi'n effeithiol i adnabod ac archwilio'r problemau a rhaid iddynt fod yn ddigon hyderus i weithredu'n gyflym ac yn benderfynol. Byddwn yn sicrhau bod strwythurau hyfforddi priodol yn cael eu datblygu yn ein sefydliadau er mwyn i'n staff ddatblygu'r sgiliau i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd hyfforddiant gloywi a diweddariadau'n cael eu darparu hefyd ar gyfer newidiadau deddfwriaethol. Byddwn yn sicrhau bod yr holl bolisiâu a gweithdrefnau sy'n berthnasol i ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ac yn cael eu troi'n arfer da wrth iddynt ddatblygu.



# YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL – CRYNODEB POLISIŶAU A GWEITHDREFNAU

Cynhyrchir y crynodeb hwn yn unol â Deddf Ymddygiad  
Gwrthgymdeithasol 2003 ac mae ar gael am ddim.

## ***Crynodeb o Ddatganiad y Polisi***

Mae'r Landlordiaid Cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru ar gyfer Strategaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd diogel i bob preswlydd er mwyn iddynt gael byw mewn heddwch yn eu cymunedau.

Mae'r grŵp yn bwriadu cyflawni hyn trwy fonitro a gorfodi amodau tenantiaeth, a thrwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill er mwyn defnyddio pwerau cyfreithiol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd priodol.

## **Diffiniad**

Mae'r grŵp yn defnyddio'r diffiniad canlynol o ymddygiad gwrthgymdeithasol fel asesiad:

*"Ymddygiad gwrthgymdeithasol yw ymddwyn mewn modd sy'n achosi aflonyddwch, braw neu ofid i un neu fwy o bobl nad ydynt o'r un cartref".*

Bydd y grŵp yn ceisio atal ymddygiad gwrthgymdeithasol rhag digwydd lle bynnag y bo modd ac yn ceisio atal ymddygiad gwrthgymdeithasol rhag digwydd eto ar ôl derbyn adroddiadau gwreiddiol amdanynt.

Gall fesurau gynnwys cefnogaeth denantiaeth, trefnu cefnogaeth tymor hwy, gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol eraill, cyfryngiad, Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBOs), Cytundebau Ymddygiad Derbyniol, Darostwng Tenantiaeth, Meddiannu a Gorfodebion.

## **Datganiad Polisi**

Mae'r grŵp yn cydnabod bod rhaid taclo ac atal achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol yn llwyddiannus er mwyn darparu gwasanaeth o safon. Er mwyn cyflawni hyn:

- Bydd y grŵp yn archwilio i bob adroddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Bydd archwiliadau'r grŵp yn ceisio nodi a chyfweld pawb sy'n gysylltiedig.
- Bydd yr ymholiadau y byddwn yn eu cynnal yn dechrau cyn gynted ag y bo modd ar ôl derbyn y gŵyn.
  - Bydd y grŵp yn cydnabod pob adroddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyflym.
  - Byddwn yn diweddarau pawb ynghylch yr achos pan fo'n bosibl.
- Bydd ymateb y grŵp, yn ôl yr angen ac fel y bo'n briodol, yn symud o gynghori, cymodi a chefnogi gweithredoedd tenantiaid eu hunain i weithredoedd cyfreithiol ar ran dioeddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Bydd gweithredoedd y gymdeithas yn erbyn troseddwy yn cynnwys gwaharddebau, ac achosion traddodi, darostwng tenantiaeth, meddiant a gorchmynion troi allan lle bo'n briodol.
- Bydd y gymdeithas yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill gan gynnwys yr heddlu, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill a sefydliadau perthnasol eraill. Byddwn yn cyfrannu mewn fforymau priodol ac yn defnyddio'r protocolau cyfnewid gwybodaeth i rannu gwybodaeth er mwyn datrys materion ymddygiad gwrthgymdeithasol.

- Byddwn yn hyfforddi ein staff yn gyson er mwyn sicrhau arfer gorau wrth fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithiol ac yn sensitif.

Byddwn yn cefnogi dioddefwr a thystion ac yn ystyried hyn yn hanfodol i drin ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol.

### ***Crynodeb o Weithdrefnau***

Os ydych yn dioddef oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, cysylltwch â'r landlord perthnasol cyn gynted â phosibl.

Rydym yn cofnodi pob digwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol a byddwn yn archwilio'r adroddiad, gan gynnwys cyfweld â'r troseddwy'r honedig a thystion, lle bo'n briodol.

Byddwn yn cytuno ar ddull gweithredu gyda chi wedi iddynt gwblhau'r archwiliad, gan gynnwys rhoi cyngor ar eu gweithredoedd, os oes rhai. Bydd rhain yn cael eu cadarnhau yn ysgrifenedig.

Trwy gydol pob cam mewn unrhyw archwiliad i ymddygiad gwrthgymdeithasol, byddwn yn sicrhau bod cofnodion manwl a chywir o ymweliadau, cyfarfodydd, cyfweliadau etc. yn cael eu paratoi.

Ar ôl cael cytundeb ar ddod ag achos i ben, bydd y gymdeithas yn cadarnhau hyn yn ysgrifenedig.

## ***Sut i gysylltu â ni***

### ***Dinas a Sir Abertawe***

Swyddfa Ranbarthol Blaenymaes 534060

Swyddfa Ranbarthol Eastside 791251

Swyddfa Ranbarthol Gorseinon 897700

Swyddfa Ranbarthol Treforys 601720

Swyddfa Ranbarthol Penlan 582704

Swyddfa Ranbarthol Sgeti 516810

Swyddfa Ranbarthol Canol y Dref 650486

Swyddfa Ranbarthol Townhill 513900

Swyddfa Ranbarthol West Cross 402500.

### **Cymdeithas Tai Dewi Sant**

Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 01639 887417

### **Cymdeithas Tai Teuluoedd**

01792 460192

### **Cymdeithas Tai Gwalia**

Tîm Rheoli Tenantiaethau – 646626

### **Cymdeithas Tai Gwerin**

01873 857531

### **Cymdeithas Tai Abertawe**

Rheolwr Tai – 479281



